Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
Independent Office for Police Conduct




# Cynllun busnes

2021/22

## Rhagair a chyflwyniad


Rhagair y Cyfarwyddwr Cyffredinol 4
Cyflwyniad 7


## Ein gwaith


**Blaenoriaeth: gweithio gydag eraill i wella system gwynion yr heddlu**
- Trosolwg 8
- Yr hyn fyddwn ni'n ei wneud yn 2021/22 9
- Sut y byddwn yn mesur ein cynnydd 12
- Dan sylw: gwella prydlondeb ac ansawdd 13

**Blaenoriaeth: gwella plismona drwy adnabod a rhannu'r gwersi o'n gwaith**
- Trosolwg 16
- Yr hyn fyddwn ni'n ei wneud yn 2021/22 17
- Sut y byddwn yn mesur ein cynnydd 20
- Dan sylw: ymdrin â gwahaniaethu 21

**Blaenoriaeth: gwella hyder yn atebolrwydd yr heddlu**
- Trosolwg 22
- Yr hyn fyddwn ni'n ei wneud yn 2021/22 23
- Sut y byddwn yn mesur ein cynnydd 27
- Dan sylw: cynyddu hyder y cyhoedd trwy well ymgysylltu 28

**Blaenoriaeth: bod yn sefydliad effeithlon ac effeithiol**
- Trosolwg 30
- Yr hyn fyddwn ni'n ei wneud yn 2021/22 32
- Sut y byddwn yn mesur ein cynnydd 34
- Dan sylw: canolbwyntio ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant 35


## Cyllid a risgiau


Ein cyllid 36
Ein risgiau 37



**© Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (2021)**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai lle nodir yn wahanol.





POLICE

# Rhagair y Cyfarwyddwr Cyffredinol

Rwyf yn falch o gyflwyno ein Cynllun Busnes ar gyfer 2021/22. Dyma'r cynllun blynyddol terfynol yn cefnogi cyflawni ein cynllun Strategol cyntaf, yn ymwneud â'r cyfnod o dair blynedd hyd Fawrth 2022.

Yn ein tair blynedd cyntaf fe wnaethom osod cyfeiriad newydd i wella hyder y cyhoedd yn system gwynion yr heddlu a phlismona yn ehangach.

Rwy'n falch o'r cynnydd a wnaed gennym. Ein blaenoriaeth gyntaf oedd gwella prydlondeb ein hymchwiliadau. Rydym yn awr yn perfformio ar ein lefel uchaf erioed gyda 91% o ymchwiliadau wedi eu cwblhau mewn 12 mis, gan guro ein targed o 85%. Mae hyn yn welliant sylweddol o ystyried mai 69% oedd y ffigwr pan ddaeth yr IOPC i fodolaeth.

Rydym hefyd wedi gorffen pob un ond tri o'r 538 o achosion hŷn a etifeddwyd gan Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu. Rydym yn disgwyl cwblhau'r tri achos sy'n weddill erbyn diwedd y flwyddyn galendr hon.

Trwy ein gwaith thematig, rydym yn canolbwyntio ar y materion sydd yn achosi mwyaf o bryder i'r cyhoedd – iechyd meddwl, camddefnyddio pŵer at ddibenion rhywiol, digwyddiadau traffig ar y ffordd a gwahaniaethu. Rydym hefyd yn edrych ar stopio a chwilio a'r defnydd o TASER.

Hyd yn hyn, rydym wedi gwneud dros 400 o argymhellion o ran gwersi a ddysgwyd i luoedd heddlu a chyrff plismona i wella arferion plismona mewn amrywiaeth o feysydd o stopio a chwilio i blismona ffyrdd a dalfa'r heddlu. Mae atal yn well na cheisio datrys.

Bydd ein trydydd Adroddiad Effaith blynyddol yn dangos y gwahaniaeth rydym wedi'i wneud trwy ddal yr heddlu i gyfrif a gwella arferion plismona trwy ddynodi a rhannu'r gwersi a ddysgir trwy ein gwaith.

Mewn digwyddiadau trwy gydol y flwyddyn gwelwyd cynnydd ym mhryder y cyhoedd am anghymesuredd, defnyddio grym a gwahaniaethu gan yr heddlu, gan gael effaith ar yr ymddiriedaeth yn yr heddlu a'r system cyfiawnder troseddol. Mae gan swyddogion heddlu bwerau sylweddol a all effeithio ar ryddid a bywydau pobl; ac rydym yn gwybod bod y defnydd o'r pwerau hyn yn cael effaith anghymesur ar gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Mae'n bwysig i'r cyhoedd fod â hyder bod y pwerau hynny yn cael eu harfer yn briodol a chymesur a, phan na fyddant, bod swyddogion heddlu yn cael eu dal yn atebol.



Rydym wedi gwrando ar amrywiaeth o randdeiliaid a gweithio'n nes atynt, gan lunio gwell perthynas gyda phawb y mae ein gwaith yn effeithio arno.

Mae rhanddeiliaid wedi sylwi ar y gwahaniaeth. Maent yn fwy cadarnhaol nag erioed ac mae ein hymgysylltu gwell â nhw yn cael ei ganmol yn fawr. Mae'r cynnydd hwn yn adeiladu ar ein harolwg rhanddeiliaid cyntaf yn 2019 ac yn cefnogi'r newid cyfeiriad tuag at ddysgu ac ymgysylltu'n fwy agored.


Rydym wedi gweithio gyda'r Swyddfa Gartref ac eraill i weithredu diwygiadau sylweddol i system gwynion yr heddlu, a ddaeth i rym yn Chwefror 2020. Dylai'r adolygiadau hyn gefnogi'r cyfeiriad yr ydym yn teithio iddo a gwelwyd cynnydd da arnynt.

Wrth i ni gychwyn ar y drydedd flwyddyn hon dan ein cynllun strategol presennol, rydym yn parhau yn uchelgeisiol a byddwn yn parhau i weithio ar y problemau sydd fwyaf o bwys i'r cyhoedd a'r heddlu.

Eleni, byddwn hefyd yn dechrau siapio cyfeiriad y sefydliad at y dyfodol wrth i ni ystyried ein strategaeth dair blynedd nesaf.

Hoffwn groesawu ein cyfarwyddwyr anweithredol sydd newydd eu penodi yr wyf yn edrych ymlaen at gael gweithio gyda nhw, ynghyd â'n rhanddeiliaid, i ddatblygu ein cynllun Strategol nesaf.

Yn olaf, wrth i ni ystyried effaith COVID-19, rwy'n eithriadol o ddiolchgar i'n holl staff am fod mor benderfynol a'r gwahaniaeth y maent wedi ei wneud wrth gyflawni ein gwaith pwysig yn ystod y cyfnod heriol iawn hwn. Ni fyddem wedi gallu cyflawni'r cynnydd hebddynt.



**Michael Lockwood**
Cyfarwyddwr Cyffredinol

**Ein cenhadaeth yw sicrhau a gwella hyder y cyhoedd mewn plismona trwy sicrhau bod yr heddlu'n atebol am eu gweithredoedd a bod gwersi’n cael eu dysgu.**

# Cyflwyniad

Dyma'r flwyddyn olaf o gyflawni ein Cynllun Strategol 2018-2022.[1]

Mae'r Cynllun Busnes hwn yn amlinellu'r gwaith yr ydym yn bwriadu ei wneud yn 2021/22.

Ochr yn ochr â chyflawni ein swyddogaethau statudol, a amlinellir yn adran 10(c) o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*, rydym wedi cynllunio rhaglen waith uchelgeisiol, sy'n seiliedig ar ein pedair blaenoriaeth:

- gweithio gydag eraill i wella system gwynion yr heddlu
- gwella plismona trwy ddynodi a rhannu gwersi a ddysgwyd trwy ein gwaith
- gwella hyder yn atebolrwydd yr heddlu
- bod yn sefydliad effeithlon ac effeithiol

Ar gyfer pob un o'r blaenoriaethau hyn, mae'r cynllun hwn yn amlinellu'r gwaith rydym yn bwriadu ei gyflawni eleni i ddwyn y gwaith o gyflawni ein strategaeth dair blynedd i ben. Mae hefyd yn nodi sut y byddwn yn mesur ein cynnydd a sut y byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo wrth gyflawni ein strategaeth.

Wrth ymrwymo i'r cynllun hwn rydym wedi ystyried ein hadnoddau, capasiti a'n gallu yn ofalus.

Rydym yn rhoi adroddiad ar ein cynnydd a'n perfformiad mewn cymhariaeth â'r mesurau yn y Cynllun Busnes i'n Bwrdd Unedol. Mae'r Bwrdd, ynghyd â'n Pwyllgorau Archwilio a Sicrhau Risg a Phobl a Diwylliant, yn cytuno ar ein strategaeth a'n Cynllun Busnes ac yn herio ac yn cynnig cyfeiriad i'n gwaith.

Byddwn yn parhau i fod yn agored a thryloyw am ein perfformiad. Rydym yn cyhoeddi adroddiadau perfformiad misol a gwybodaeth arall am ein gwaith ar ein gwefan. Yn ychwanegol, rydym yn rhoi sicrwydd parhaus i'r Swyddfa Gartref, yr Ysgrifennydd Cartref a'r Senedd ein bod yn cyflawni'r hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud ac yn defnyddio ein hadnoddau yn effeithlon ac yn effeithiol.

Yn flynyddol rydym yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol, sy'n rhoi adroddiad am ein perfformiad mewn cymhariaeth â'n Cynllun Busnes.

1 Cyhoeddwyd ein Cynllun Strategol 2018-2022 ym mis Tachwedd 2018.

# Blaenoriaeth

## Gweithio gydag eraill i wella system gwynion yr heddlu

### Trosolwg

Dylai system gwynion effeithiol gyflawni canlyniadau diduedd, teg a seiliedig ar dystiolaeth yn gyson mewn modd amserol. Dylai hefyd sicrhau, pan fydd pethau'n mynd o chwith, bod atebolrwydd a gwersi i'w dysgu.

Rydym yn gweithio gyda llawer o wahanol randdeiliaid i ysgogi gwelliannau ym mhob rhan o'r system gwynion. Mae hyn yn cynnwys y gwaith rydyn ni'n ei wneud ein hunain a'r achosion o gwynion y mae'r heddlu'n delio â nhw.

Rydym eisoes wedi gwneud cynnydd da wrth wella prydlondeb ein hymchwiliadau ein hunain. Mae dros 91% o'n hymchwiliadau yn awr yn cael eu cwblhau cyn pen 12 mis mewn cymhariaeth â 69% pan ddaethom i fodolaeth yn 2018.[2]

Mae diwygiadau deddfwriaethol diweddar[3] i system gwynion yr heddlu hefyd yn dangos arwyddion cynnar o welliant.

Ond, mae angen rhagor gan bawb sy'n ymwneud â chyflawni'r system gwynion i sicrhau bod yr holl gwynion yn cael eu trin mewn ffordd resymol a chymesur, bod prydlondeb o un pen i'r system i'r llall yn cael ei wella, a bod mwy o dryloywder am y prosesau a'r deilliannau sy'n dilyn ymchwiliadau.

Byddwn yn parhau i wella ansawdd ein gwaith, gan sicrhau bod penderfyniadau ar sail tystiolaeth a thryloyw yn arwain at gasgliadau ar sail resymegol dda, gan adeiladu ar ein sicrwydd mewnol a'n swyddogaethau adolygu. Pryd bynnag y bo modd, byddwn yn dryloyw ynghylch y dystiolaeth sydd wedi llywio ein penderfyniadau, ac yn darparu rhesymeg glir ar eu cyfer. Bydd ein gwaith i ail-ddylunio ein prosesau gweithredol yn parhau, gan ganolbwyntio ar eu gwneud yn fwy effeithlon a chymesur, ac yn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth.

Mae'r IOPC yn rhan o system ehangach, a gall prosesau sy'n dilyn ein hymchwiliadau ychwanegu at yr amser a gymerir i ddod ag achosion i ben. Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod y system gyfan yn gweithio'n effeithiol. Ochr yn ochr â gwella prosesau mewnol, byddwn yn gweithio'n agos gyda phartneriaid ar draws y system cyfiawnder troseddol i wella prydlondeb achosion troseddol a chamymddwyn, cwestau a'r amser a gymerir i drefnu gwrandawiadau.

2 Nid yw hyn yn cynnwys ymchwiliadau mawr. Mae ymchwiliadau mawr yn ymchwiliadau cymhleth ar raddfa fawr a fyddai fel rheol yn cymryd capasiti sylweddol o'n tîm gweithrediadau rhanbarthol. Rheolir y rhain gan ein Cyfarwyddiaeth Ymchwiliadau Mawrion.

3 Daeth y diwygiadau mwyaf diweddar i system gwynion yr heddlu i rym ym mis Chwefror 2020.

# Byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo pan fydd

- Yr amser a gymerir i ymateb i gwynion a chwblhau ymchwiliadau ac apeliadau yn cael ei leihau ar draws system gwynion yr heddlu.
- Yr amser a gymerir i gwblhau'r holl brosesau cysylltiedig (er enghraifft prosesau disgyblu) yn byrhau, yn arbennig yn dilyn marwolaethau ac anafiadau difrifol.
- Cwynion yn cael eu datrys y tro cyntaf gan arwain at lai o adolygiadau.
- Cwynion a digwyddiadau difrifol yn cael eu trin yn gyson ar draws yr holl luoedd heddlu.
- Y rhai sy'n ymwneud â chwynion, ymchwiliadau, apeliadau ac adolygiadau (defnyddwyr gwasanaeth) yn fodlon ar y ffordd yr ymdriniwyd â'u hachos.

## Yr hyn fyddwn ni'n ei wneud yn 2021/22

- Adolygu tua 4,500 o achosion y disgwylir iddynt gael eu hatgyfeirio atom bob blwyddyn gan luoedd heddlu a phenderfynu sut y dylid ymchwilio iddynt.
- Ymchwilio'n annibynnol i'r achosion camymddwyn a llygredd mwyaf difrifol sy'n ymwneud â'r heddlu. Mae'r achosion 'gwaith craidd' hyn yn cynnwys achosion posib o dorri Erthyglau 2 a 3 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.[4] Maent yn ymwneud â digwyddiadau sy'n effeithio'n sylweddol ar hyder y cyhoedd mewn plismona.
- Parhau â'n hymchwiliad i ganlyniadau trychineb Hillsborough ac ymchwiliadau mawr eraill o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi ein hadroddiad terfynol am Operation Linden, ein hymchwiliad i honiadau bod yr heddlu wedi methu ag ymchwilio i gwynion hanesyddol o gam-drin plant yn rhywiol yn Rotherham.
- Dynodi achosion i ymchwilio iddynt sy'n canolbwyntio ar themâu a materion sydd yn achosi mwyaf o bryder i'r cyhoedd a'r heddlu, gan gynnwys gwahaniaethu, iechyd meddwl, digwyddiadau traffig ar y ffyrdd, cam-drin domestig a chamddefnyddio statws ar gyfer pwrpas rhywiol.
- Cynnal ymchwiliadau dan gyfarwyddyd i achosion cymhleth a'r rhai sydd angen adnoddau arbenigol. Mae ymchwiliadau dan gyfarwyddyd yn digwydd o dan ein cyfarwyddyd a'n rheolaeth ni, ond maent yn defnyddio adnoddau'r heddlu i gynnal a chwblhau'r ymchwiliad.
- Penderfynu ar dros 2,500 o apeliadau a cheisiadau am adolygiad a ragwelir gan aelodau o'r cyhoedd sy'n anfodlon â'r ffordd y mae'r heddlu wedi delio â'u cwyn.[5] Rydym yn ystyried a oedd canlyniad y gŵyn a bennwyd gan yr heddlu yn rhesymol a chymesur.
- Adolygu 1,500 o achosion ychwanegol yn ymwneud â marwolaeth neu anaf difrifol yn dilyn cyswllt â'r heddlu i sicrhau eu bod wedi cael eu trin yn briodol gan yr heddlu a bod y camau cywir wedi'u cymryd.
- Ymateb i dros 28,000 o ymholiadau am wybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd a dderbynnir bob blwyddyn gan ein Canolfan Gyswllt Cwsmeriaid.
- Datblygu ymhellach arbenigedd ein Grwpiau Ymarferwyr Gweithredol (OPGs), sy'n cefnogi'r holl staff gweithredol trwy rannu arfer gorau wrth gyflawni ein gwaith. Rydym wedi sefydlu OPGs i ganolbwyntio ar feysydd fel datgelu, cyfweld, ysgrifennu adroddiadau ac ymchwiliadau digidol.
- Parhau i wella ein Llawlyfr Gweithrediadau[6] i roi canllawiau mwy hygyrch, perthnasol a diweddar i gefnogi ein staff i gyflawni eu gwaith.
- Gweithredu gwell prosesau gweithredol i gyflawni deilliannau o safon uchel a phrydlon i'n defnyddwyr gwasanaeth trwy:
  - weithredu System Reoli Tystiolaeth Ddigidol newydd i wneud y defnydd gorau o'r swmp cynyddol o dystiolaeth ddigidol sy'n berthnasol i'n gwaith
  - ddatblygu System Reoli Achosion newydd fel bod gwybodaeth am ein hachosion yn hawdd i'w defnyddio a chael mynediad ati, ac yn cael ei storio yn briodol

4 Mae Erthygl 2 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn nodi y bydd hawl pawb i fywyd yn cael ei amddiffyn gan y gyfraith. Mae Erthygl 3 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn gwahardd artaith, a "thriniaeth neu gosb annynol neu ddiraddiol". Nid oes unrhyw eithriadau na chyfyngiadau ar yr hawl hon.

5 Dan yr adolygiadau a gyflwynwyd yn 2020 gan *Ddeddf Plismona a Throseddu 2017* cyflwynwyd system o adolygiadau, gan gymryd lle'r system apeliadau flaenorol.

6 Mae ein Llawlyfr Gweithrediadau yn cynnwys y cyfarwyddyd, templedi a dogfennau y mae ar staff eu hangen er mwyn cyflawni ein gwaith gweithredol.

- Ddefnyddio ein pwerau cyfreithiol newydd i gyflwyno canfyddiadau o'n hachosion mewn gwrandawiadau disgyblu, pan fydd hyn er budd y cyhoedd.[7]
- Ddefnyddio ein pŵer i weithredu yn ôl ein barn ein hunain, pan fydd yn briodol, i benderfynu sut y dylid ymchwilio i achos heb fod angen i'r heddlu ei gofnodi neu ei atgyfeirio atom yn gyntaf.
- Ddatblygu ffyrdd mwy effeithiol o weithio ar draws y system gwynion yr heddlu ehangach trwy weithio gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), Ffederasiwn yr Heddlu, y Prif Grwner a rhanddeiliaid eraill.
- Asesu a sicrhau safon ein gwaith trwy ein fframwaith sicrhau ansawdd, gan gynnwys trwy:
  - gynnal paneli achosion tyngedfennol amlddisgyblaethol[8] i oruchwylio cyflawni ein hymchwiliadau mwyaf sensitif a chymhleth
  - gynnal adolygiadau manwl untro o achosion, gan ganolbwyntio ar feysydd sy'n achosi pryder, gan gynnwys pan fydd risgiau cyfreithiol penodol neu broblemau
  - weithredu safonau ansawdd gofynnol ar gyfer ein holl ymchwiliadau i helpu i ddynodi pan fydd ymchwiliad mewn perygl o ddisgyn yn is na'r safonau hynny a gweithredu'n gyflym i ymateb i hynny
  - barhau i ddatblygu prosesau, data a llwyfannau clir a thryloyw i roi sicrwydd o ansawdd ein gwaith gweithredol
  - gynnal fforymau gwneud penderfyniadau mewnol cyson a phroses adolygu cymheiriaid i hybu cysondeb a nodi gwersi a ddysgwyd a meysydd i'w gwella
- Parhau i gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol o dan *Ddeddf Diogelu Data 2018*, a'r *Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000*.
- Rhoi hawl i achwynwyr a'r rhai sy'n gweithredu ar eu rhan i ofyn am adolygiad os byddwn yn penderfynu peidio ag atgyfeirio ymchwiliad at y CPS trwy ein cynllun Hawl Dioddefwr i Adolygiad.[9]
- Parhau i gefnogi lluoedd heddlu a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu i ymwreiddio diwygiadau cyfreithiol yn system gwynion yr heddlu a fwriadwyd i sefydlu diwylliant o ddysgu a gwella.
- Gweithio gyda'r Swyddfa Gartref i ddiweddaru'r trefniadau goruchwylio ar gyfer cyrff nad ydynt yn heddlu dan ein hawdurdodaeth.
- Canolbwyntio ar wella ansawdd a defnyddioldeb ein data trwy gyflawni ein strategaeth rheoli gwybodaeth. Fel rhan o hyn byddwn yn gwneud gwelliannau pellach i'n prosesau ar gyfer datgelu i gefnogi gweithdrefnau cyfreithiol fel treialon troseddol a gwrandawiadau disgyblu.

7 Creodd Rheoliad 24(1) o Reoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020 bwerau newydd i'r IOPC gyflwyno achosion a gyfeiriwyd at wrandawiad camymddwyn neu wrandawiad camymddwyn cyflymach lle gwrthododd yr awdurdod priodol (AP), mewn perthynas ag ymchwiliad, dderbyn argymhelliad gan yr IOPC, roedd barn yr AP yn wahanol i benderfyniad gan yr IOPC, yr AP a'r IOPC yn cytuno y dylai'r IOPC gyflwyno'r achos, neu'r IOPC o'r farn bod budd cyhoeddus cryf i'r IOPC gyflwyno'r achos.

8 Mae ein paneli achosion tyngedfennol yn grwpiau amlddisgyblaeth sy'n cyfarfod bob mis i sicrhau bod ein hymchwiliadau mwyaf sensitif a chymhleth yn cael eu trin yn briodol.

9 Mae ein cynllun Hawl Dioddefwr i Adolygiad yn sicrhau nad oes unrhyw wahaniaeth rhwng hawliau dioddefwr sy'n honni bod trosedd wedi'i chyflawni gan aelod o'r cyhoedd ac un sy'n honni bod trosedd wedi'i chyflawni gan rywun sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu.

## Sut y byddwn yn mesur ein cynnydd

### Byddwn yn anelu at:

- gwblhau 85% o ymchwiliadau cyn pen 12 mis (ac eithrio ymchwiliadau mawr)
- gwblhau 66% o ymchwiliadau cyn pen naw mis (ac eithrio ymchwiliadau mawr)
- gwblhau 35% o ymchwiliadau cyn pen chwe mis (ac eithrio ymchwiliadau mawr)
- benderfynu ar y dull ymchwilio ar gyfer 80% o'r achosion a atgyfeirir atom ni cyn pen tri diwrnod gwaith
- sicrhau bod yr amser ar gyfartaledd a gymerir i gwblhau adolygiad yn 50 diwrnod gwaith o dderbyn y papurau cefndir
- sicrhau bod yr amser ar gyfartaledd a gymerir i adolygu marwolaeth a ymchwiliwyd yn lleol neu ymchwiliad anaf difrifol yn 30 diwrnod gwaith o dderbyn y papurau cefndir

### Byddwn yn monitro ac yn ymateb i:

- y gyfran o apeliadau yr ydym yn eu cadarnhau pan fydd aelodau o'r cyhoedd yn anfodlon â sut mae lluoedd heddlu wedi ymdrin â'u cwyn[10]
- y gyfran o randdeiliaid plismona sy'n credu bod yr IOPC yn cael effaith ar wella'r ffordd y mae'r heddlu yn ymdrin â chwynion

10 O dan y diwygiadau cyfreithiol a gyflwynwyd yn Chwefror 2020, rydym yn asesu a oedd y broses o drin neu ganlyniad terfynol cwyn yn rhesymol ac yn gymesur.



# Dan sylw:

## gwella prydlondeb ac ansawdd

Mae cael pobl fedrus, y prosesau cywir a’r offer cywir yn hanfodol wrth gyflawni gwelliannau o ran prydlondeb ac ansawdd i’n prosesau gweithredol allweddol.

Tra ein bod wedi gwneud gwelliannau sylweddol i ansawdd a phrydlondeb ein hymchwiliadau dros y tair blynedd ddiwethaf ers dod yn IOPC, nid ydym yn hunanfodlon. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar gyflwyno rhagor o welliannau.

Yn 2021/22 byddwn yn parhau i ail-ddylunio ein prosesau gweithredol fel eu bod yn fwy cymesur ac effeithlon gan gynnal gwasanaeth o safon uchel i’n defnyddwyr gwasanaeth.

Mae hyn yn cael ei gyflawni trwy gyfres o brosiectau a chynlluniau gwelliant parhaus llai dros y ddwy flynedd nesaf. Mae’r gwaith yn 2021/22 yn cynnwys:

- datblygu ein System Reoli Tystiolaeth Ddigidol (DEMS) i sicrhau bod gennym y gallu technolegol i gasglu, storio a rheoli tystiolaeth ddigidol sy’n ymwneud â’n hachosion, sy’n dod yn gynyddol amlwg. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys ymwreiddio’r prosesau, pobl a’r offer sydd eu hangen i wneud y defnydd gorau o’r system newydd hon a sicrhau deilliannau ymchwil o safon uchel pan fydd achos yn ymwneud â thystiolaeth ddigidol
- gwella’r ffordd y mae achosion yn cael eu paratoi a’u dyrannu i roi gwasanaeth mwy effeithlon, gan sicrhau bod gwaith yn cael ei ddyrannu i gydweithwyr sy’n gallu darparu’r deilliannau mwyaf prydlon, o safon uchel ar unrhyw adeg benodol
- gwella’r modd yr ydym yn cefnogi a rhoi adnoddau i’r gwaith yr ydym yn ei gyflawni ar ddiwedd ymchwiliad i sicrhau defnydd mwy effeithlon o’n hadnoddau pan fydd eu hangen tu hwnt i’n hymchwiliad
- diwygio ein prosesau datgelu i sicrhau ein bod yn bodloni ein cyfrifoldebau wrth roi cefnogaeth i gamau troseddol, camymddygiad a’r crwneriaid a gwneud y defnydd gorau o’n hadnoddau.
- defnyddio amrywiaeth o ffyrdd gwahanol o gyfathrebu canfyddiadau ein prif ymchwiliadau, gan ganolbwyntio ar anghenion defnyddwyr gwasanaeth unigol
- datblygu fframwaith lunio penderfyniadau ar gyfer ein gwaith gweithredol, gan greu set safonol o feini prawf y gallwn eu dangos i ddefnyddwyr gwasanaeth er mwyn i ni allu dangos sut y mae penderfyniadau wedi eu llunio yn well
- datblygu canllawiau i helpu ymchwilwyr i bennu’r ffordd fwyaf cymesur o gael tystiolaeth tystion a’r unigolyn sy’n destun ymchwiliad, gan gynnwys trwy ddulliau electronig ac o bell, ac adeiladu ar rai o’r ffyrdd newydd o weithio yr ydym wedi eu treialu yn ystod y pandemig COVID-19

Byddwn hefyd yn cwblhau adolygiad o’n Huned Gwrthlygredd gan edrych ar y nifer o achosion, adnoddau, proses recriwtio a llunio penderfyniadau.



# Blaenoriaeth

## Gwella plismona trwy ddynodi a rhannu gwersi a ddysgwyd trwy ein gwaith

### Trosolwg

Gall newidiadau a wneir o ganlyniad i wersi o'n gwaith wella plismona i bawb ac amddiffyn y cyhoedd rhag niwed. Er bod yn rhaid cael atebolrwydd ar gyfer ymddygiad gwael a thorri safonau proffesiynol, mae dysgu gwersi a gwella plismona yn rhan gynyddol bwysig o'n gwaith.

Mae cwynion a digwyddiadau difrifol, fel marwolaethau yn y ddalfa, yn cynnig cyfleoedd i ddysgu o'r hyn aeth o'i le. Rydym am i ganfyddiadau ein gwaith gefnogi diwylliant o ddysgu gwersi a gwelliant parhaus mewn plismona, sy'n atal problemau rhag digwydd yn y lle cyntaf ac yn helpu i yrru newid systematig a sefydliadol.

Mae ein gwaith yn parhau i ganolbwyntio ar y meysydd plismona sy'n peri'r pryder mwyaf i'r cyhoedd a'r heddlu, gyda gwahaniaethu ar sail hil, iechyd meddwl, digwyddiadau traffig ar y ffyrdd, cam-drin domestig a chamddefnyddio statws ar gyfer pwrpas rhywiol yn flaenoriaethau allweddol yn ychwanegol at ein gwaith craidd.

Cefnogir hyn gan newidiadau deddfwriaethol a gyflwynwyd llynedd, sy'n canolbwyntio ar wella dysgu gwersi unigol ac ymddygiadau wrth ymateb i faterion ymddygiad ar lefel is.

Y llynedd fe wnaethom 105 o argymhellion dysgu gwersi a newidiodd arferion plismona mewn meysydd yn amrywio o warantau chwilio i erlid gan yr heddlu.

Rydym yn rhannu argymhellion yn uniongyrchol gyda lluoedd heddlu, yn ogystal â thynnu sylw atynt trwy'r cyfryngau, ar ein gwefan, yn ein hadroddiadau neu yn y cylchgrawn Dysgu'r Gwersi (Learning the Lessons), a thrwy amrywiol sianeli eraill.

Mae'r adroddiad effaith blynyddol yn cynnwys sawl enghraifft o sut yr ydym yn defnyddio'r gwersi o'n gwaith i ddylanwadu ar newidiadau mewn plismona, sicrhau atebolrwydd a chefnogi arfer gorau.

# Byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo pan

- Fyddwn yn gweithio'n glos gydag amrywiaeth o randdeiliaid yn naturiol tu mewn i blismona a thu allan iddo i ddynodi themâu a dynodi'r gwersi i'w dysgu trwy'n gwaith.
- Fydd ein hargymhellion gwersi i'w dysgu yn cael eu derbyn a gallwn ddangos eu heffaith ar blismona gweithredol.
- Fydd rhanddeiliaid yn hyderus bod ein gwaith yn hyrwyddo dysgu gwersi a gwella.
- Fyddwn yn gallu dangos bod ein gwaith wedi cefnogi ein partneriaid (er enghraifft, Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS), y Coleg Plismona, Cyngor Prif Swyddogion yr Heddlu Cenedlaethol (NPCC)) trwy ddylanwadu ar eu gwaith i wella plismona gweithredol.

## Yr hyn fyddwn ni'n ei wneud yn 2021/22

- Cyhoeddi ac ehangu cyrhaeddiad ein cylchgronau Dysgu'r Gwersi i rannu'r gwersi o ymchwiliadau gennym ni a gan adrannau safonau proffesiynol lluoedd heddlu.
- Cynhyrchu ein Hadroddiad Effaith blynyddol i ddangos y gwahaniaeth rydym wedi'i wneud o ran gwella arferion plismona a dynodi a rhannu'r gwersi o'n gwaith.
- Parhau i ganolbwyntio ar waith ar wahaniaethu ar sail hil ac ymateb i broblemau sy'n effeithio yn anghymesur ar gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig trwy:
  - ddynodi themâu o'r achosion yr ydym wedi ymchwilio iddynt sy'n ymwneud â gwahaniaethu ar sail hil a gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu argymhellion gwersi i'w dysgu i wella arferion plismona
  - weithio gyda lluoedd heddlu a chyrff plismona lleol i wella sut y maent yn ymdrin â chwynion ac adolygiadau yn ymwneud â phryderon am wahaniaethu ar sail hil neu anghymesuredd ar sail hil
  - roi adroddiadau ar y themâu yr ydym wedi eu dynodi a'r gweithredu a wnaed i ymateb i hynny, gan gynnwys unrhyw argymhellion am ddysgu gwersi neu welliannau i'n prosesau
- Parhau i weithio i ymwreiddio ein strategaeth ddysgu gwersi trwy wella'r ffordd yr ydym yn cynhyrchu argymhellion dysgu gwersi yn barhaus a defnyddio'r rhain i yrru newidiadau i arferion plismona.
- Sefydlu partneriaethau effeithiol gyda rhanddeiliaid perthnasol, gan greu cyfleoedd i rannu arbenigedd ar draws y system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys:
  - rhannu tystiolaeth a dysgu gyda HMICFRS i fod yn sail i'w raglen arolygu
  - cyfrannu at wella Arferion Proffesiynol Awdurdodedig y Coleg Plismona trwy gydweithio cyson am ein hargymhellion dysgu'r gwersi
  - datblygu ffyrdd newydd o rannu gwersi yn fyw o'n gwaith gan alluogi newidiadau i arferion gael eu gwneud yn gyflym a lleihau'r risg o niwed
- Cyhoeddi ystadegau blynyddol ar farwolaethau yn ystod neu ar ôl cyswllt â'r heddlu i dynnu sylw at y gwersi a ddysgwyd a disgrifio ble y gellir gwneud gwelliannau i amddiffyn y cyhoedd a'r heddlu.
- Parhau i weithio gyda HMICFRS a'r Coleg Plismona i ymateb i uwch gwynion[11] am faterion systemig mewn plismona a all fod yn niweidio hyder y cyhoedd yn sylweddol.
- Parhau i adeiladu arbenigedd technegol ein rhwydweithiau pynciol (SMNs) i wella ansawdd a chysondeb ein gwaith. Mae ein SMNs yn gweithio gydag arbenigwyr allanol i sicrhau bod ein gwaith yn cael ei lywio gan y syniadaeth, yr arferion a'r arweiniad diweddaraf.
- Defnyddio dysgu a nodwyd trwy ein gwaith i eiriol dros welliannau i blismona gweithredol trwy ymateb i ymgynghoriadau cyhoeddus a chyhoeddi safbwyntiau polisi.
- Cyfrannu at grŵp Arweinwyr Dysgu'r NPCC i adnabod cyfleoedd i ddefnyddio gwersi o'n gwaith i wneud gwelliannau ledled y system.

11 Mae'r system uwch-gwynion (Adran 29A, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*) yn cynnig llwybr i gyrff dynodedig godi pryder ynghylch mater systemig mewn plismona sydd, neu'n ymddangos fel petai, yn niweidio hyder y cyhoedd ac sy'n amlwg mewn un neu fwy o luoedd heddlu. Cyflwynir uwch-gwynion i HMICFRS, sydd â'r prif gyfrifoldeb am reoli'r system. Mae HMICFRS yn gweithio mewn partneriaeth â'r Coleg Plismona a'r IOPC (ac eraill yn ôl yr angen) i gytuno ar ymateb i'r uwch-gŵyn.



## Sut y byddwn yn mesur ein cynnydd

### Byddwn yn anelu at:

- gyhoeddi ein Hadroddiad Effaith blynyddol yn rhoi tystiolaeth o'r gwahaniaeth yr ydym wedi ei wneud wrth wella plismona a system gwynion yr heddlu
- gynyddu i 95% y gyfran o randdeiliaid sy'n cytuno bod ein cylchgrawn Dysgu'r Gwersi yn adnodd defnyddiol i hybu newid ym mholisi'r heddlu[12]

### Byddwn yn monitro ac yn ymateb i'r:

- gyfran o argymhellion dysgu gwersi a dderbynnir gan luoedd heddlu
- gyfran o randdeiliaid sy'n meddwl bod yr IOPC yn effeithiol wrth godi safonau mewn lluoedd heddlu
- gyfran o randdeiliaid sy'n meddwl bod yr IOPC yn effeithiol wrth sicrhau bod lluoedd heddlu yn dysgu oddi wrth gwynion

12 Yn seiliedig ar arolwg o ddarllenwyr a gynhaliwyd ar ôl cyhoeddi pob rhifyn newydd o'r cylchgrawn.

# Dan sylw:

## taclo gwahaniaethu

Mae tystiolaeth am anghymesuredd wrth ddefnyddio pwerau'r heddlu wedi bod yn bryder ers amser maith sy'n effeithio ar hyder mewn plismona, yn arbennig mewn cymunedau Du. Ond hyd yn oed gyda'r rhifau a'r ystadegau, yn arbennig o ddata stopio a chwilio, mae arnom angen deall yr hyn sy'n ei achosi'n well a'r hyn y gellid ac y dylid ei wneud i ymdrin â hyn o hyd.

Amlygwyd y maes hwn ymhellach gan farwolaeth George Floyd, y mudiad Black Lives Matter a'r cyflwyniadau cynyddol i ni gan aelodau o amrywiaeth o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn mynegi pryder am wahaniaethu a defnyddio grym.

Y llynedd, lansiwyd gwahaniaethu ar sail hil gennym fel maes thematig dan sylw er mwyn gallu dynodi tueddiadau a phatrymau i gynorthwyo i yrru newid gwirioneddol o ran arferion plismona.

Mae dewis achosion thematig yn cynnwys ymchwilio'n annibynnol i fwy o achosion lle gall gwahaniaethu ar sail hil fod yn ffactor. Mae hyn yn ein galluogi i ddatblygu corff o dystiolaeth, gan ddynodi problemau systematig y dylid ymdrin â nhw ac arfer da y gellir ei rannu.

Gall dynodi a rhannu gwersi a ddysgwyd trwy ddadansoddi achosion ar y cyd ac yn thematig arwain at newidiadau mewn diwylliant, hyfforddiant, goruchwyliaeth, polisi, a chyfarwyddyd ar raddfa lawer mwy na gweithredu i gosbi. Yn ei dro gall hyn helpu i ymdrin â phryderon cymunedol a gwella hyder y cyhoedd yn y system gwynion a phlismona yn ei gyfanrwydd.

Gyda chefnogaeth tîm amlddisgyblaeth ac SMN, bydd ein dadansoddiad yn gadael i ni rannu adroddiad cychwynnol ar themâu a phroblemau sy'n dod i'r amlwg, gydag adroddiad mwy manwl ac argymhellion i ddilyn.

Bydd y gwaith thematig hwn yn canolbwyntio ar ddau faes allweddol:

- anghymesuredd o ran y defnydd o bwerau'r heddlu (er enghraifft, stopio a chwilio, defnyddio grym, defnyddio pwerau COVID-19)
- achosion pan fydd dioddefwyr troseddau o gymunedau Du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig wedi teimlo eu bod yn cael eu trin yn annheg gan yr heddlu (er enghraifft peidio ag ymchwilio i droseddau casineb, pobl ar goll, cam-drin domestig neu rywiol; triniaeth wael i ddioddefwyr neu dystion neu beidio â rhoi gofal addas, gan gynnwys pan fydd iechyd meddwl yn ffactor)

Byddwn yn gwneud argymhellion gwersi i'w dysgu cenedlaethol pan fyddwn yn dynodi cyfleoedd i ddysgu gwersi ar sail y dadansoddiad thematig o'n hachosion.

# Blaenoriaeth

## Gwella hyder yn atebolrwydd yr heddlu

### Trosolwg

Mae system gwynion gref a chadarn y mae'r cyhoedd a'r heddlu yn ymddiried ynddi yn rhan hanfodol o gynnal hyder mewn plismona.

Un o'n dyletswyddau allweddol yw goruchwylio a gwella'r modd y mae cwynion yn cael eu trin gan luoedd heddlu. Mae llawer o gwynion yn ymwneud â phroblemau gwasanaeth cwsmeriaid ar lefel is ac yn cael eu trin gan y lluoedd heddlu eu hunain, ond gallwn ymchwilio'n annibynnol i'r achosion mwyaf difrifol.

Mae'n parhau'n flaenoriaeth i ni ganolbwyntio ar greu mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'n rôl, fel bod y cyhoedd yn gwybod pwy ydyn ni a beth rydyn ni'n ei wneud.

Byddwn yn gwneud hyn trwy weithio gyda'n rhanddeiliaid a'n cynulleidfaoedd allweddol i ddeall yn well y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu a sut i ymateb i'w pryderon, gan ddefnyddio'r ddealltwriaeth a gawn trwy'n hymchwil i arwain a bod yn sail i'n gwaith.

Elfen allweddol o hyn fydd dealltwriaeth well o'r hyn sy'n gyrru hyder y cyhoedd mewn plismona, a pha rai o'r rheiny y gallwn gael effaith arnynt.

Yn benodol, bydd gwella ymwybyddiaeth o'r IOPC ymhlith pobl ifanc a'r rhai o gymunedau Du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig yn parhau'n flaenoriaeth. Rydym yn gwybod bod rhagor o waith i'w wneud yn y maes hwn, gan weithio gyda'n Panel Ieuenctid[13] a thrwy ganolbwyntio ar wahaniaethu fel thema.

Er y gall y rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau fod â gwahanol safbwyntiau ac anghenion sy'n cystadlu â'i gilydd, mae ein safonau gwasanaeth yn berthnasol i bawb yn gyfartal. Cyfrannodd y safonau hyn at ein hachrediad Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid® ac maent yn adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i fodloni anghenion ein holl ddefnyddwyr gwasanaeth.

13 Yn 2018 fe wnaethom gomisiynu Leaders Unlocked i greu ein Panel Ieuenctid i ymgysylltu â phobl ifanc. Ar hyn o bryd mae'n cynnwys 37 o bobl ifanc 16-25 oed, 61% ohonynt yn Ddu, Asiaidd neu o leiafrifoedd ethnig.

# Byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo pan fydd

- Gan y cyhoedd hyder yn system gwynion yr heddlu ac mae pobl yn barod i gwyno.
- Pobl ifanc a’r rhai o gefndiroedd Du Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig â hyder yn y system ac yn barod i gwyno.
- Demograffeg y rhai sy’n cwyno yn adlewyrchu’r cymunedau a wasanaethir gan yr heddlu.

## Yr hyn fyddwn ni'n ei wneud yn 2021/22

- Cyflawni ein cyfrifoldeb am oruchwylio gweithrediad effeithiol system gwynion yr heddlu trwy:
  - gasglu, dadansoddi a chyhoeddi data am gwynion gan yr holl heddluoedd, a'i ddefnyddio i lywio ein goruchwyliaeth o'r system, gan gynnwys cyhoeddi ystadegau cwynion yr heddlu blynyddol ar gyfer pob llu heddlu yng Nghymru a Lloegr.
  - ddarparu pwynt cyswllt pwrpasol i'r holl heddluoedd a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu i drafod ymdrin â chwynion ac adolygu perfformiad
  - gynhyrchu cyfarwyddyd ychwanegol a rhannu arfer da gyda PSD y lluoedd a'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu i gefnogi gwelliannau wrth ymdrin â chwynion
- Cynyddu hyder cymunedau lleol trwy weithredu cynlluniau ymgysylltu cymunedol pwrpasol ar draws Cymru a Lloegr.
- Parhau i weithio gyda'n Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Allanol a Fforwm Rhanddeiliaid Cymru i fod yn sail i'n gwaith a'i herio.[14]
- Gweithio gyda rhanddeiliaid plismona i wella'r cydweithrediad yn ystod ymchwiliadau.
- Gweithio i wella hyder unigolion a chymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn system gwynion yr heddlu trwy ganolbwyntio ar:
  - sicrhau cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol ac ystyrlon gyda chymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig i'n helpu i ddeall a chael gwared ar unrhyw rwystrau sy'n eu hatal rhag defnyddio system gwynion yr heddlu
  - adeiladu ar ddealltwriaeth o'r meysydd sydd yn achosi mwyaf o bryder i gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a chanolbwyntio ein gwaith ar y meysydd hynny
  - wella'r ymwybyddiaeth o ganlyniadau ac effaith ein gwaith i helpu i gynyddu ymddiriedaeth a hyder yn y cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig
- Gweithio gyda'n Panel Ieuenctid i wella ymwybyddiaeth a hyder pobl ifanc yn system gwynion yr heddlu. Eleni bydd y Panel yn canolbwyntio ar:
  - ddynodi arferion plismona sy'n effeithio ar bobl ifanc o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn anghymesur
  - ymgysylltu â phobl ifanc mewn lleoliadau addysg a grwpiau cymunedol ar draws Lloegr a Chymru i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r hawl i gwyno
  - gyfrannu at weithgor ar y cyd Gwasanaeth yr Heddlu Metropolitan a Swyddfa'r Maer dros Blismona a Throseddu i sicrhau bod barn pobl ifanc yn chwarae rhan yn y sgyrsiau am blismona

14 Mae Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Allanol a Fforwm Rhanddeiliaid Cymru yr IOPC yn dwyn amrywiaeth o randdeiliaid statudol ac anstatudol allanol at ei gilydd i herio a rhoi adborth adeiladol ar berfformiad a phrosiectau allweddol yr IOPC, ac yn gweithredu fel bwrdd seinio anffurfiol i drafod darnau penodol o waith yr IOPC a phynciau perthnasol.

- Cadw ein hachrediad Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid® ac archwilio ffyrdd i ddangos ymhellach ein hymrwymiad i ansawdd y gwasanaeth a ddarparwn.[15]
- Adolygu a diweddaru ein polisi cwynion ac adborth, gan sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn gallu rhoi adborth, gwneud awgrymiadau neu gwyno am ein gwaith a derbyn ymateb priodol.
- Ymchwilio i gwynion am ein gwasanaeth ac ymateb iddynt cyn pen 20 diwrnod gwaith. Pan na fydd hyn yn bosibl, byddwn yn esbonio pam a pha mor hir y credwn y bydd yn ei gymryd.
- Rhannu gwybodaeth am ein gwaith gyda'r cyhoedd trwy sicrhau bod gwybodaeth ar gael trwy ein gwefan, ymgyrchoedd, cyfryngau cymdeithasol, cylchlythyr a chyfryngau, gan gynnwys cyhoeddi crynodebau o achosion, deilliannau ymchwiliadau, data perfformiad a'r gwersi a ddysgwyd.
- Parhau i weithredu'r argymhellion a ddynodwyd gan y Sefydliad Iechyd Meddwl[16] i hyrwyddo mynediad at a phrofiad o ddefnyddio'r system gwynion i ddefnyddwyr gwasanaethau gyda chyflyrau iechyd meddwl.
- Cyflwyno arferion adferol i'n gwaith ar ymchwiliadau ac adolygiadau pan fydd hynny'n addas. Cyn belled, rydym wedi rhoi hyfforddiant arferion adferol i 30 o gydweithwyr a gall y cydweithwyr hynny yn awr hyfforddi a chefnogi eraill i ddefnyddio arferion adferol. Gall y dull hwn helpu i ddatrys achosion penodol yn ogystal â chefnogi ein hymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth yn fwy cyffredinol.[17]
- Parhau i ymgynghori a datblygu ein cynnig am wasanaeth gwybodaeth ac eiriolaeth annibynnol i system gwynion yr heddlu i wella'r gefnogaeth a'r cyngor i'r rhai a all ei gweld yn anodd defnyddio a theithio trwy system gwynion yr heddlu.
- Parhau i ddatblygu cynigion am ffyrdd y gall defnyddwyr gwasanaeth herio ein penderfyniadau, gan adeiladu ar y newidiadau a gyflwynwyd yn barod, fel ein Hawl Dioddefwyr i Adolygiad. Rydym wedi diweddaru ein gwefan i nodi'r peirianwaith sydd ar gael i bobl herio ein penderfyniadau am achosion.
- Cyflwyno strategaeth gyfathrebu newydd i ymgysylltu'n well â chynulleidfaoedd allweddol (yn enwedig pobl ifanc a'r rheini o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig) trwy:
  - lansio ymgyrchoedd gwybodaeth ac ymwybyddiaeth newydd, yn enwedig am ein meysydd blaenoriaeth thematig
  - lansio e-gylchlythyr rheolaidd i hysbysu ac ymgysylltu â chynulleidfa ehangach
  - adolygu a gwella ein gwefan fel y gall defnyddwyr gael gafael ar wybodaeth am ein gwaith a system gwynion yr heddlu
- Ymgysylltu'n rheolaidd gyda chymdeithasau ac undebau sy'n cynrychioli swyddogion heddlu a staff yr heddlu ar bob lefel i ddeall barn eu haelodau, o ran ble gallwn ni wella a ble y gallwn gydweithio ymhellach.

15 Mae cadw'r achrediad hwn yn gofyn am barhau i ddangos pwyslais ar y defnyddiwr gwasanaeth ar draws pum agwedd ar ein gwaith: dealltwriaeth o gwsmeriaid, diwylliant sefydliadol, gwybodaeth a hygyrchedd, cyflawni a phrydlondeb ac ansawdd.

16 Yn 2018 comisiynwyd y Sefydliad Iechyd Meddwl i gynnal ymchwil i archwilio yr hyder sydd gan bobl â phryderon iechyd meddwl yn system gwynion yr heddlu, a'r tebygolrwydd y byddant yn ymwneud â hi ac yn gallu gwneud hynny.

17 Mae arfer adferol yn dwyn defnyddwyr gwasanaeth a chydweithwyr o'r IOPC sy'n ymwneud ag achosion unigol at ei gilydd fel bod pawb yn gallu rhannu eu safbwynt am ein gwaith a gweithio tuag at ddatrysiad.



## Sut y byddwn yn mesur ein cynnydd

### Byddwn yn anelu at:

- wella perfformiad ar y dulliau mesur allweddol canlynol yn ein holrheiniwr canfyddiad y cyhoedd:
  - y gyfran o bobl ifanc sy'n hyderus bod yr heddlu yn ymdrin â chwynion yn deg
  - y gyfran o'r cyhoedd o gefndir Du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig sy'n ymwybodol ohonom

### Byddwn yn monitro ac yn ymateb i'r:

- gyfran o randdeiliaid sy'n meddwl ein bod yn gwella hyder y cyhoedd yn system gwynion yr heddlu
- gyfran o gwynion am yr heddlu a wneir gan bobl o gefndir Du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig
- gyfran o gwynion am yr heddlu a wneir gan bobl ifanc

# Dan sylw:

## cynyddu hyder y cyhoedd trwy well ymgysylltu

Gwella hyder y cyhoedd mewn plismona trwy atebolrwydd a dysgu gwersi yw cenhadaeth yr IOPC. Er mwyn cyflawni hyn rhaid i ni ymgysylltu â gwrando ar amrywiaeth o randdeiliaid allweddol, defnyddwyr system gwynion yr heddlu a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Yn ystod 2021/22 byddwn yn canolbwyntio ar lunio gwell dealltwriaeth o'r grwpiau hyn – pwy ydyn nhw, beth sy'n effeithio ar eu hyder yn y system gwynion, a sut y gallwn ni ymgysylltu'n well â nhw a sicrhau bod ganddynt fynediad at y wybodaeth gywir trwy sianeli sy'n bodloni eu hanghenion orau.

Bydd ein gwaith ymchwil yn ein helpu i gael gwell dealltwriaeth o'r hyn sydd bwysicaf i bobl, eu hamgyffrediad a'r pethau y mae angen i ni barhau i'w gwella.

Rydym wedi dechrau gweithio ar geisio deall yr hyn sy'n gyrru hyder y cyhoedd yn well a'r liferau y gallwn eu rheoli yn ogystal â'r rhai y gall sefydliadau eraill ddylanwadu arnyn nhw. Bydd y gwaith hwn yn sail i'n hail gynllun strategol ac yn helpu i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y ffactorau sydd yn gwella mwyaf ar hyder y cyhoedd mewn plismona.

Bydd pobl ifanc yn parhau yn faes allweddol i ganolbwyntio arno wrth i ni lansio ymgyrch ddigidol hawliau a pharch newydd gyda'n Panel Ieuenctid i gynyddu ymwybyddiaeth a gwella hyder pobl ifanc yn y system gwynion. Yn yr un modd, byddwn yn parhau ein gwaith i gynyddu ymwybyddiaeth o'r IOPC a system gwynion yr heddlu gyda phobl o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

Gall yr hyn sy'n effeithio ar hyder y cyhoedd wahaniaethu rhwng cymunedau ac rydym yn parhau i deilwrio ein hymgysylltu ag anghenion cymunedau penodol.

Gall ein gwaith gynnwys sefydlu grwpiau cyfeirio cymunedol a mynd i gyfarfodydd cyhoeddus. Mae hyn yn caniatáu i ni glywed yn uniongyrchol gan gymunedau a'u cynrychiolwyr am densiynau a phryderon, ac i rannu'r newyddion diweddaraf ac ateb cwestiynau am ein gwaith a'n cynnydd.

Byddwn yn parhau i wella ein sianeli gwybodaeth i'r cyhoedd, gyda strategaeth ddigidol newydd, gwefan newydd, e-gylchlythyr a gwell cyfryngau cymdeithasol. Bydd y gwaith o edrych ar y wybodaeth yr ydym yn ei chyhoeddi, pa mor ystyrlon yw i'r rhai sy'n ei defnyddio, a sut y gallwn ei gwneud yn haws i'w chanfod a'i defnyddio yn dechrau hefyd.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'n rhanddeiliaid allweddol, yn genedlaethol a lleol, gyda'n harolwg rhanddeiliaid blynyddol yn feincnod ar gyfer gwelliant.

Bydd ein Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Allanol, ein hymgysylltu rhanbarthol â sefydliadau yn y gymuned a chyfarfodydd traws-asiantaethol allweddol yn parhau i gryfhau'r ffordd yr ydym yn gweithio gyda'n partneriaid.



# Blaenoriaeth

## Bod yn sefydliad effeithlon ac effeithiol

### Trosolwg

Ein huchelgais yw i'r IOPC fod yn lle gwych i weithio. Heriodd y pandemig coronafeirws ein ffyrdd traddodiadol o weithio, ond fe wnaethom brofi ein bod yn ystwyth ac ymatebol i anghenion wrth iddynt newid. Fe wnaethom sicrhau nad oedd unrhyw un o'n cydweithwyr yn cael eu gadael ar ôl a pharhau i gyflawni'n effeithlon ac effeithiol.

Mae gennym bwyslais clir ar sut mae ein pobl yn cael eu cefnogi a'u cynnwys fel y gallant gyflawni eu potensial llawn wrth weithio gyda ni. Dangosodd arolygon staff cyson yn ystod y pandemig bod ein pobl yn teimlo bod ganddynt gyfarwyddyd clir, eu bod yn cael eu cefnogi, eu bod yn gynhyrchiol a digon o wybodaeth ganddynt.

Eleni byddwn yn adeiladu ar y syniadau blaengar a'r ffyrdd gwahanol o weithio y gwnaethom eu derbyn trwy gydol y pandemig, a byddwn yn edrych ar fodelau newydd, cymysg o weithio wrth i ni ddod allan o'r cyfyngiadau cyfnod clo. Bydd iechyd a diogelwch ein pobl yn parhau yn holl bwysig.

Rydym wedi ymrwymo i roi mynediad i'n pobl at y sgiliau, y wybodaeth a'r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i berfformio ar eu gorau, ac eleni byddwn yn adeiladu ar sylfeini a osodwyd gyda Bridge, ein system ddysgu a datblygu newydd.

Byddwn yn ymdrechu i fod yn sefydliad effeithlon lle bydd ein dyheadau'n cyfateb i'r adnoddau sydd ar gael i ni.

Dylai ein rhaglen drawsnewid TGCh am sawl blwyddyn ddod i ben eleni ac mae eisoes wedi cyflawni arbediadau sylweddol, yr ydym wedi gallu eu hail-fuddsoddi ar draws y busnes i sicrhau ein bod yn gweithio'n effeithiol ac effeithlon.

Byddwn yn parhau i asesu cyfleoedd i ddod yn sefydliad mwy effeithlon, fel adolygu ein strategaeth stadau a diweddaru a gwella ein gallu technolegol ymhellach fel bod pobl yn gallu cael mynediad at yr offer cywir i wneud eu gwaith.

# Byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo pan

- Fydd amrywiaeth ein pobl yn well ar bob lefel a'n gweithlu'n adlewyrchu'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.
- Fydd ein pobl yn llawn cymhelliant, wedi ymgysylltu ac yn falch o weithio i'r IOPC.
- Fyddwn yn cyflawni effeithlonrwydd ariannol ac yn gwneud arbedion i leihau ein costau, y byddwn yn eu meincnodi mewn cymhariaeth â sefydliadau tebyg.

## Yr hyn fyddwn ni'n ei wneud yn 2021/22

- Adnewyddu ein rhaglen achredu ymchwilwyr, gan weithio gyda'r Coleg Plismona i gysoni rhai o'n safonau ymchwilio craidd â'r Rhaglen Proffesiynoli Ymchwiliadau (PIP)[18], safon arfer gorau a gydnabyddir yn genedlaethol ar gyfer ymchwiliadau.
- Datblygu strategaeth sefydliadol newydd o Ebrill 2022 sy'n ymateb i anghenion staff a rhanddeiliaid.
- Datblygu a gweithredu ffyrdd o weithio sy'n ein symud i arferion gwaith mwy hyblyg. Bydd hyn yn golygu:
  - adolygu newidiadau a wnaed i gefnogi gweithio o bell a chadw pellter cymdeithasol yn ystod COVID-19 a phenderfynu pa newidiadau fydd yn parhau i gynnig manteision ac y dylid eu gweithredu yn barhaol
  - adeiladu ar ein peirianwaith cefnogi lles presennol a diwygio ein polisïau pobl ac iechyd a diogelwch
  - sicrhau ein bod yn casglu'r gwersi a ddysgwyd trwy addasu ein ffyrdd o weithio dros y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau ein bod yn deall sut y gallwn wella yn y dyfodol
  - diwygio ein strategaeth stadau i adlewyrchu'r cyfleoedd y mae gweithio cynyddol o gartref wedi eu hamlygu i wneud y defnydd gorau o'n stad

18 Mae ein hachrediad wedi ei drwyddedu i safonau Rhan 1 a 2 Rhaglen Broffesiynoli Ymchwiliadau'r Coleg Plismona.

- Gweithredu strategaeth gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant newydd i wneud y mwyaf o’r cyfleoedd i greu diwylliant o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhopeth a wnawn. Bydd hyn yn cynnwys:
  – datblygu amrywiaeth a chynhwysiant ein harweinyddiaeth
  – annog ystod fwy amrywiol o ymgeiswyr am ein swyddi a chynyddu amrywiaeth ein gweithlu
  – ymwreiddio dull dim goddefgarwch at wahaniaethu ar sail hil yn ein sefydliad ac ar draws system gwynion yr heddlu yn ehangach
- Cynnig ystod o gyfleoedd datblygu proffesiynol a thechnegol i'n rheolwyr a'n harweinwyr, a'r rhai sy'n dymuno symud i'r rolau hynny. Bydd hyn yn cynnwys cymwysterau dewisol y Sefydliad Rheoli Siartredig i roi cydnabyddiaeth ffurfiol o sgiliau.
- Cynnal ein harolwg staff blynyddol ac arolygon pwls rheolaidd i ddeall sut y gallwn wella fel cyflogwr.
- Dwyn ein gwaith i wahanu ein gwasanaethau TGCh gan un prif gyflenwr i ben. Bydd hyn yn gwella sefydlogrwydd a hyblygrwydd ein platfform TGCh ac yn caniatáu i ni brynu gofynion TGCh yn y dyfodol mewn ffordd sy’n fwy cost-effeithiol.
- Parhau i archwilio cyfleoedd i sicrhau ein bod yn cynnig gwerth am arian a gwneud y defnydd gorau o’n hadnoddau nad ydynt yn ddiderfyn trwy:
  – adnewyddu ein cynllun effeithlonrwydd strategol a buddsoddi ar gyfer blynyddoedd y dyfodol i sicrhau ein bod yn gallu ymateb i unrhyw newidiadau i’n cyllid gan barhau i fuddsoddi yn y gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu a’i ddatblygu
  – gwella ein dull o gael rhagolygon ariannol ymhellach trwy integreiddio cynllunio ariannol yn well ar draws mwy o feysydd o'n gwaith.
- Adolygu ein contractau a'n prosesau caffael i sicrhau eu bod yn parhau yn deg a thryloyw, yn parhau i ddiwallu ein hanghenion, ac yn sicrhau gwerth am arian.

## Sut y byddwn yn mesur ein cynnydd

### Byddwn yn anelu at:

- gyflawni sgôr ymgysylltiad staff[19] o 63% (fel y'i mesurir gan ein harolwg staff blynyddol)
- sicrhau bod 80% o'n hymchwilwyr yn cael achrediad cyn pen 24 mis
- cadw trosiant staff ar rhwng 8 a 10%
- peidio â mynd dros lefel absenoldeb salwch staff o 2.9%

### Byddwn yn monitro ac yn ymateb i'r:

- gyfran o'n pobl, gan gynnwys rheolwyr ac arweinwyr, o gefndir Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig
- gyfran o ymgeiswyr o gefndir Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy'n cael eu rhoi ar restr fer i gael cyfweliad

19 Mae ymgysylltu â gweithwyr yn ddull sy'n mesur syniadau, disgwyliadau a diwylliant sefydliadol ar y cyd. Defnyddir pum cwestiwn i gynhyrchu sgôr ymgysylltiad i'n pobl. Mae'r rhain yn cofnodi ymgysylltiad trwy ofyn sut maen nhw'n siarad am eu sefydliad, a oes ganddyn nhw gysylltiad emosiynol ag ef, ac a yw eu sefydliad yn eu hysbrydoli. Cysylltir gwell ymgysylltiad gan weithwyr â pherfformiad sefydliadol gwell, llai o salwch a mwy o hapusrwydd.

# Dan sylw:

## canolbwyntio ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Rydym yn byw mewn cymunedau amlddiwylliannol, yn llawn o bobl amrywiol, safbwyntiau amrywiol a setiau amrywiol iawn o sgiliau. Rydym yn credu er mwyn rhoi'r gwasanaeth o safon y mae ein defnyddwyr yn ei ddisgwyl, mae angen i'n gweithlu adlewyrchu'r cymunedau yr ydym yn byw a gweithio ynddynt yng Nghymru a Lloegr.

Mae gweithlu mwy amrywiol a chynhwysol yn helpu i ymgysylltu'n well â'r rhai yr ydym yn eu gwasanaethau i gael eu hymddiriedaeth, deall eu hanghenion yn well, cydnabod gwahaniaethau diwylliannol a chynyddu hyder.

Rydym wedi cymryd camau mawr i wella, gan gyflwyno dulliau newydd, mwy cynhwysol o recriwtio, cynyddu ein cefnogaeth i grwpiau sydd wedi eu tangynrychioli ar lefel rheoli i gael mynediad ar raglenni datblygu, a lansio hyfforddiant i bawb o'r staff ar ddynodi gwahaniaethau yn ein hymchwiliadau.

Ond, rydym yn gwybod bod gennym fwy i'w wneud i greu gweithlu gwirioneddol amrywiol ac i gynrychioli'r Brydain fodern yr ydym yn gweithio ynddi.

Eleni rydym yn lansio strategaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant newydd, sy'n sail i'n gwaith ac yn adlewyrchu ein hymrwymiad i fodloni anghenion y cymunedau amrywiol yr ydym yn eu gwasanaethu.

Byddwn yn cyhoeddi data mwy ystyrlon am amrywiaeth ein gweithlu i fod yn well sail ar gyfer penderfyniadau a chynyddu ein gallu fel sefydliad cymwys yn ddiwylliannol trwy ddysgu gwersi pellach a datblygu.

Bydd ein hymrwymiad i'r Siarter Hil yn y Gwaith yn parhau yn feincnod amlwg o'n hymrwymiad i gydraddoldeb hiliol, ochr yn ochr â'n marc nodau Stonewall a Hyderus am Anabledd.[20]

Byddwn yn parhau i ddatblygu arweinyddiaeth fwy cynhwysol trwy annog ceisiadau ar gyfer ein Rhaglen Rheolwyr Awyddus gan amrywiaeth eang o gydweithwyr, gan hyrwyddo swyddi arwain gwag yn weithredol ar lwyfannau amrywiol ac annog ceisiadau gan ymgeiswyr sy'n cael eu tangynrychioli.

Byddwn yn parhau ein rhaglen fentora wrthdro lle mae aelodau ein Panel Ieuenctid yn gweithio gydag uwch arweinwyr i godi ymwybyddiaeth a chynyddu dealltwriaeth o brofiadau pobl ifanc.

Bydd ein rhaglen gynghreirio yn parhau i wella gallu cydweithwyr i gefnogi diwylliant lle mae rhwystrau hiliol yn cael eu chwalu a phawb yn cael y cyfleoedd y gall eraill eu cymryd yn ganiataol. Dros amser byddwn yn cynnwys nodweddion eraill a ddiogelir yn rhan o'r rhaglen hon.

# Ein cyllid

Rydym yn cael ein hariannu gan y Swyddfa Gartref trwy gymorth grant. Rydym yn cael cyllid ychwanegol gan y Swyddfa Gartref i ddod â'n hymchwiliad annibynnol i drasiedi Hillsborough i ben.

Yn 2021/22, bydd yr IOPC yn derbyn cyllid refeniw o £69.645 (£69.645m ar gyfer 2020/21) sy’n cynnwys cyllid ar gyfer ymchwiliad Hillsborough.

Dirprwyir cyllidebau i gyfarwyddwyr ac fe'u neilltuir i gyflawni'r prosiectau a’r gwaith arall a nodir yn y cynllun Busnes hwn.

## Cyllid IOPC 2021/22

| **Cyllideb IOPC 2021/22** | **£m** |
|---|---|
| Grŵp Swyddfa Breifat | 1.18 |
| Gweithrediadau | 27.74 |
| Cyfreithiol | 3.83 |
| Strategaeth ac Effaith | 9.90 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 6.50 |
| TGCh | 9.38 |
| Ystadau | 5.36 |
| Hillsborough | 5.87 |
| Incwm | **(0.37)** |
| **CYFANSWM** | **69.65** |

# Ein risgiau

Er mwyn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r gwaith a nodir yn y cynllun Busnes hwn, byddwn yn parhau i ddefnyddio ein fframwaith rheoli risg. Goruchwylir y fframwaith gan ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac mae'n ein cefnogi i nodi, asesu a rheoli risgiau sy'n dod i'r amlwg ac yn newid. Mae'r fframwaith yn cynnwys ein Polisi Rheoli Risg, yr ydym yn ei ddiweddaru'n gyson i adlewyrchu newidiadau yn y modd yr ydym yn cyflawni ein gwaith. Mae ein Datganiad Awch am Risg yn gadael i ni ystyried pa weithgareddau y byddwn yn ymgymryd â nhw a lefel y risg yr ydym yn barod i'w derbyn i yrru'r gweithgaredd hwn ymlaen. Nodir isod y risgiau allweddol i'r modd yr ydym yn cyflawni eleni.

## COVID-19

Yn ystod y flwyddyn nesaf rydym yn gobeithio symud allan o barhau busnes i "normal newydd". Nid ydym yn gwybod eto faint fydd hyn yn amharu ar ein gwaith na pha effaith y bydd y trosglwyddiad hwn yn ei gael ar gyflawni'r gwaith a nodir yn y Cynllun Busnes. Byddwn yn ail edrych ar ein polisïau gweithredol a llesiant i leihau unrhyw amharu ar ein staff a defnyddwyr gwasanaeth.

Mae rhywfaint o ansicrwydd hefyd yn parhau am y cyfyngiadau ar symudiadau a'r camau cadw pellter cymdeithasol fydd yn parhau, y ddau ohonynt yn effeithio ar ein gallu i ymgysylltu â'n holl randdeiliaid. Wrth i'r rhaglen frechu gael ei chyflwyno rydym yn rhagweld y byddwn yn dechrau cael rhywfaint o gyfathrebu wyneb yn wyneb, ond byddwn yn cynllunio ar gyfer trosglwyddiad graddol i leihau effaith unrhyw newidiadau.

Byddwn yn adolygu ein cynllun trosglwyddo a'n blaenoriaethau sefydliadol yn barhaus i ymateb i'r sefyllfa sy'n newid yn barhaus, gan sicrhau ein bod yn canolbwyntio ein hymdrechion ar gyflawni'r gwaith pwysicaf sy'n cael mwyaf o effaith. Bydd hyn yn helpu i liniaru unrhyw risg o ddychwelyd i gyfyngiadau wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen.

Byddwn yn cwblhau ein rhaglen o uwchraddio system TGCh hanfodol ac ail-ddylunio ein prosesau gweithredol. Bydd technoleg a'n dull o arloesi a gwella yn ein galluogi i ddatblygu atebion i oresgyn rhwystrau y gallem ddod ar eu traws wrth gyflawni ein gwaith yn ystod yr amseroedd heriol hyn ac yn y dyfodol.

Rydym yn ymwybodol bod oedi yn y system cyfiawnder troseddol ehangach o ganlyniad i COVID-19. Mae risg y gall yr oedi yma effeithio ar ein hamserlenni ninnau. Er bod yr oedi ei hun tu hwnt i'n rheolaeth ni, byddwn yn ceisio rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'n defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid pan fydd hyn yn digwydd.

## Cyflawni wrth wella

Yn ystod y flwyddyn byddwn yn ail-ddylunio ein prosesau gweithredol. Mae budd posibl y gwaith hwn o wella prydlondeb ac ansawdd ein gwaith ymhellach, gwella effeithlonrwydd a gwella hyder yn system gwynion yr heddlu, yn fawr.

Wrth i ni ddechrau gweithredu'r gwaith hwn, byddwn yn cael mwy o eglurder ynghylch y ffyrdd y bydd ein prosesau'n newid a byddwn yn gallu rhagweld yn well yr effaith y bydd cyflawni'r gwaith hwn yn ei chael ar agweddau eraill ar y cynllun Busnes hwn. Byddwn yn parhau i asesu ein blaenoriaethau a defnyddio ein fframwaith rheoli newid i sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni ein swyddogaethau statudol wrth symud ymlaen â nodau'r gwaith hwn.

## Adnoddau

Mae ansicrwydd ynghylch ein cyllid yn y blynyddoedd i ddod yn parhau i fod yn risg i'n cyflawni. Byddwn yn cadw ein heffeithlonrwydd strategol a’n cynllun buddsoddi dan adolygiad i'n helpu i ddeall ac ymateb yn well i newidiadau posibl i'n cyllid.

Rydym yn disgwyl i’r adolygiad gwariant cynhwysfawr a ohiriwyd ddigwydd yn y flwyddyn ariannol newydd. Byddwn yn ymateb i unrhyw gynigion o’r adolygiad gwariant i ddangos pa effaith y bydd newid mewn cyllid yn ei gael ar y gwaith yr ydym yn ei gyflawni.

Rydym hefyd yn disgwyl i’r broses o wahanu TGCh greu arbedion sylweddol. Ond, mae’r gwaith hwn yn cynnwys negodi contractau cymhleth a maith, sy’n ei gwneud yn anodd nodi maint yr arbediadau fydd yn cael eu gwireddu ar hyn o bryd.

Byddwn yn parhau i weithredu'r cynllun hwn dros y 12 mis nesaf, gan adolygu cynigion lle bo angen. Bydd hyn yn caniatáu inni wneud penderfyniadau gwybodus am flaenoriaethau sy’n cystadlu â’i gilydd a gwneud y mwyaf o gyfleoedd i fod yn effeithlon pan fydd yn bosibl.

## Rheoli gwybodaeth

Ar ôl i’r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd rydym yn monitro ein hymrwymiadau dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn unol â’n strategaeth wybodaeth a chyfarwyddyd y Llywodraeth.

Rydym wedi gweld galw cynyddol o ran ceisiadau am wybodaeth yn y flwyddyn ddiwethaf ac nid ydym yn disgwyl i’r galw hwn leihau. Rydym yn recriwtio staff ac yn cyflwyno rhagor o hyfforddiant i reoli a lliniaru risg i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â *Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000*.

Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
Independent Office for Police Conduct

# Rhagor o wybodaeth

Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am ein gwaith neu i ofyn am y cynllun hwn ar ffurf wahanol, gallwch gysylltu â ni mewn nifer o ffyrdd:

**www.policeconduct.gov.uk**

Dilynwch ni ar Twitter: **@policeconduct**

Anfonwch e-bost atom yn: **enquiries@policeconduct.gov.uk**

Ffoniwch ni ar: **0300 020 0096**

Cyfnewid testun: **18001 0207 166 3000**

Ysgrifennwch atom i:

IOPC
10 South Colonnade
Canary Wharf
London E14 4PU

We welcome telephone calls in Welsh.
Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg.

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg hefyd.

Awst 2021